



## Helpu eich plant â Mathemateg a Rhifedd

Tra bydd yr ysgolion ar gau, bydd athrawon yn sicrhau eich bod yn cael cyngor a chymorth o ran sut y mae helpu eich plant â sgiliau mathemateg a rhifedd. Athrawon eich plant fydd y ffynhonnell orau o gyngor. Bydd llawer o'r cyfleoedd dysgu sy'n cael eu darparu yn ymarfer yr hyn y mae eich plant wedi'i ddysgu yn yr ysgol. Felly ble mae dechrau? Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw dod i wybod beth y mae eich plant yn GALLU ei wneud a'u helpu wedyn i ymarfer y sgiliau hyn gartref.

Mae pob cam yn y canllawiau hyn yn cynrychioli cyfnod sylweddol o amser ar siwrnai ddysgu eich plant felly mae'n bwysig eu bod nhw'n cymryd amser i ymarfer a defnyddio'r sgiliau mewn gwahanol sefyllfaoedd yn y cam hwnnw.

Rhan bwysig o ddysgu plant mewn mathemateg yw gofyn iddynt ddefnyddio'u dealltwriaeth a'u gwybodaeth fathemategol mewn sefyllfaoedd pob dydd: rhifedd yw hyn. Gall cymorth yn y cartref roi hwb i sgiliau rhifedd. Bydd annog plant i ymarfer eu sgiliau rhifedd yn eu bywyd pob dydd yn eu helpu i ddod yn fwy hyderus wrth adnabod a defnyddio rhifau yn y byd o'u cwmpas.

Mae ysgolion yn dysgu plant i weithio gyda rhifau a gwneud cyfrifiadau gan ddefnyddio gwahanol ddulliau. Rhannwch y gwahanol ddulliau rydych chi a'ch plant yn eu defnyddio i ateb cwestiwn a threuliwch amser yn dysgu oddi wrth eich gilydd. Y peth pwysicaf y gallwch chi ei wneud yn awr yw annog a helpu eich plant i ymarfer eu gwybodaeth am rifau, patrymau a'r siapiau o'u cwmpas a thrafod sut y maen nhw'n defnyddio sgiliau rhif bob dydd.

### Cynghorion defnyddiol

**Cael hwyl yw'r nod** – defnyddiwch gemau, Lego, cardiau, peli, ac ati i fwynhau archwilio rhifau, patrymau, mesurau a siapiau. Ewch allan i ddysgu a bod yn greadigol.

**Byddwch yn gadarnhaol** ynghylch gwneud gwaith rhif. Dywedwch, "Tyrd i ni drïo gyda'n gilydd," neu "Beth am i ni gael golwg ar y rhifau hyn a rhoi cynnig arni".

**Chwiliwch am rifau, patrymau, siapiau a mesurau mewn bywyd pob dydd** – cofiwch gynnwys eich plant mewn gweithgareddau sy'n ymwneud ag arian, coginio, chwarae gemau ac ymarfer corff.

**Mwynhewch y dysgu** – chwiliwch am recordiau byd gwallgof i roi cynnig arnynt. Pennwch her deuluol! Ceisiwch guro'r recordiau isod.




Ewch gam ymhellach – bydd rhoi cynnig ar unrhyw rai o'r recordiau hyn yn datblygu sgîl a manwl gywirdeb wrth gyfrif a mesur. Yna gallech gasglu canlyniadau'r rhai sydd yn eich cartref neu'r perthnasau a ffrindiau y byddwch yn cysylltu â nhw ar-lein. Gallwch roi'r canlyniadau mewn tabl canlyniadau neu eu defnyddio i lunio graffiau.


Troelli darn 2c am yr amser hiraf	25.71 eiliad
Chwythu pysen sych bellaf ag anadl sengl	7.51 metr
Dal y nifer mwyaf o deganau meddal mewn munud gan wisgo mwgwd dros eich llygaid	25 tegau meddal
Rhoi'r nifer mwyaf o sanau ar un droed mewn 30 eiliad	28 hosau

## Cychwyn arni

Mae plant ifanc yn naturiol chwilfrydig am gyfrif, siapiau a mesur ac yn y cyfnod cynnar hwn, mae'n bwysig eu hannog i ddefnyddio'u sgiliau mathemateg mewn bywyd pob dydd, er enghraifft pan fyddant yn chwarae gemau, yn tacluso ac yn bwyta. Mae defnyddio geiriau mathemategol wrth i'ch plant chwarae yn helpu datblygiad cynnar eu dealltwriaeth o fathemateg, e.e. "dros", "o dan", "cyntaf, ail, trydydd", "crwn", "trwy", "cyn", "ar ôl".


Dyma rai ffyrdd o helpu eich plentyn i ymarfer:


Os yw eich plant:	Gallwch eu helpu trwy wneud y canlynol:
Yn gallu gwrando ar rigymau, caneuon, storïau a gemau sy'n cynnwys rhifau, cyfrif ac amser, ac ymuno â nhw	Canu caneuon gyda'ch gilydd, e.e. Pum crocodeil yn nofio yn yr afon ..., Un bys, dau fys, tri bys yn dawnsio ... Chwarae gemau wrth baratoi bwyd, "Dau i mi, dau i ti".
Yn didoli a pharu pethau pob dydd	Casglu eitemau pob dydd fel tegan anifeiliaid neu gwpanau a phowlenni. Trafodwch y rhai sy'n debyg a pha rai sy'n wahanol. Ewch ati i ddidoli pethau sy'n cyd-fynd â'i gilydd, e.e. pethau mawr a phethau bach. Chwarae Snap a chwilio am barau.
Yn gallu copïo a pharhau â gwahanol batrymau	Adnabod patrymau a'u trafod, e.e. streipiau ar ddillad, clapio, siapiau ar lenni. Creu patrymau gan ddefnyddio pethau pob dydd, e.e. botymau coch, glas, glas, coch, glas, glas ... neu ffon, deilen, ffon, deilen ...
Yn cyfrif i 5, ymlaen ac yn ôl 	Gwneud setiau o 2, 3, 4 neu 5 peth a'u cyfrif gyda'ch gilydd. Cyfrifwch â rhifau hyd at 5 lle bynnag y bydd hynny'n bosibl, e.e. wrth ddringo'r grisiau, cyfrif cyllyll a ffyr. Mae cyfrif ar fysedd yn gam pwysig cyntaf.
Yn cyfrif i 10, ymlaen ac yn ôl 	Chwarae gemau bwrdd a symud botymau ymlaen. Wrth chwarae lansio roced, dechreuwch gyfrif tuag yn ôl ... a gadewch i'r plant ei orffen!
Yn cyfrif i 20, ymlaen ac yn ôl 	Adrodd rhifau hyd at 20, ymlaen ac yn ôl, ac o fannau cychwyn gwahanol. Gofyn i'ch plentyn ganfod y rhifau hyn o gwmpas y cartref. Tynnwch eich llinell rhif eich hun. Trafodwch y rhif mwyaf a'r rhif lleiaf.
Yn gallu dweud 'un yn fwy' ac 'un yn llai' na rhif wrth chwarae	Dewis cerdyn o gasgliad o 1-10/20 a dweud bod y rhif hwnnw 'un yn fwy' neu 'un yn llai'. Dangoswch ar linell rif.
Yn gallu dweud y ffeithiau rhif sy'n gwneud 10 ac 20, e.e. mae 10 yn 2 ac 8, mae 3 a 7 yn gwneud 10, mae 18 a 2 yn gwneud 20	Trafod rhifau sy'n gwneud 10/20 gan ddefnyddio pethau pob dydd, e.e. teganau, esgidiau, cyllyll a ffyr. Dangoswch ffeithiau rhif hyd at 10 gan ddefnyddio'r bysedd.

<p>Yn sylwi ar rifau o 0 i 10 a'r tu hwnt, yn eu darllen a'u hysgrifennu Paru rhif â'r nifer</p> 	 <p>16 llwy</p>
<p>Yn gallu trafod arian</p>	<p>Defnyddio darnau 1c, 2c, 5c a 10c i dalu am eitemau wrth chwarae'n ddychmygus: caffi, siop, canolfan arddio, siop hufen iâ, garej, siop trin gwallt, siop deganau.</p>
<p>Yn disgrifio eitemau mewn ffyrdd gwahanol, e.e. pa mor hir neu dal neu drwm ydyn nhw</p>	<p>Trafod gwahanol eitemau yn y cartref a'u gosod yn eu trefn: o'r hiraf i'r byrraf; o'r trymaf i'r ysgafnaf; yr un sy'n dal y mwyaf o hylif.</p>
<p>Yn trafod amser, amser cinio, amser gwely, ac ati</p>	<p>Trafod trefn digwyddiadau yn ystod y dydd. Disgrifio pa mor hir y mae tasgau a gweithgareddau'n cymryd, e.e. faint o weithiau y gelli di neidio i fyny ac i lawr mewn munud?</p>
<p>Yn trafod siapiau eitemau pob dydd</p>	<p>Enwi a thrafod siapiau 2D: triongl, sgwâr, petryal a chylch. Yn disgrifio'r siapiau y maen nhw'n eu gweld.</p>
<p>Yn canfod casgliadau o eitemau a'u didoli</p>	<p>Chwilio yn y bocs teganau neu'r drôr cyllyll a ffyrc, a thynnu llun i ddangos y gwahanol grwpiau o eitemau.</p>

### Symud ymlaen

Yn y cam hwn, bydd plant yn ymarfer eu dealltwriaeth a'u hyder wrth gyfrifo â rhifau hyd at 100 a'r tu hwnt. Mae'n bwysig eu bod nhw'n gallu defnyddio rhifau mewn bywyd pob dydd er mwyn gallu gofyn ac ateb cwestiynau. Anogwch eich plant i ddangos eu dull gweithio a thynnu llun o'r patrymau a'r siapiau a welant o'u cwmpas. Bydd defnyddio paent, creonau, pinnau ffelt ac ati yn eu helpu i fod yn greadigol â'u mathemateg.

Os yw eich plant:	Gallwch eu helpu trwy wneud y canlynol:
Yn cyfrif i 100, ymlaen ac yn ôl	Trafod y rhifau rydych chi'n eu gweld o gwmpas y cartref a chyfrif i 100, ymlaen ac yn ôl.
Yn dweud ffeithiau rhif sy'n gwneud 20, er enghraifft: 2 ac 18, neu 15 a 5	Trafod rhifau sy'n gwneud 20 gan ddefnyddio pethau pob dydd, e.e. ffyrc a llwyau.
Yn canfod gwahaniaethau o fewn 100	Cyfrifo'r newid o gant o geiniogau. Trafod rhifau sy'n gwneud 100, e.e. 20 ac 80.
<p>Yn darllen, ysgrifennu a thrafod rhifau hyd at 1000</p> 	<p>Chwilio am rifau ar bethau, dillad a phacedi yn eich cartref. Trafodwch y rhifau, "Pa un yw'r mwyaf, pa un yw'r lleiaf, pa un yw'r trymaf, pa un yw'r ysgafnaf?"</p>



Cyfrif â rhifau mwy, gan ddechrau â 997, 998, 999, 1000, 1001, 1002.

Tynnwch linellau rhif gwahanol a'u labelu. Rhowch y rhifau a welwch yn eich cartref yn y lle cywir ar y llinell.

Dyma ychydig o enghreifftiau o linellau rhif y gallech eu tynnu.

Yn cymharu, talgrynnu ac amcangyfrif â rhifau hyd at 100

Talgrynnu symiau o arian i'r bunt neu'r £10 agosaf. Amcangyfrifwch sawl darn o Lego sydd yn y boc, e.e. mae 86 bloc, wedi'i dalgrynnu i'r deg agosaf yn 90 bloc.

Yn cyfrif fesul cam, e.e. fesul dau, fesul pedwar, fesul tri, fesul chwech ac ati ac yn adnabod odrifau ac eilrifau

Mae cyfrif casgliad o eitemau fesul 2, 5 neu 10 yn strategaeth fwy effeithlon na chyfrif fesul un, e.e. pentyrrau o ddarnau arian neu deils ar y wal.

Yn dosrannu rhifau mewn ffyrdd gwahanol i hwyluso'r cyfrifo



Dosrannu rhifau gan ddefnyddio'u gwerth lle i rannu rhif yn gannoedd, degau ac unedau, e.e. mae 118 yn un cant, 1 deg ac 8 uned/un.  $118 = 100 + 10 + 8$ .

Mae rhannu'r rhif yn rhifau llai yn ffordd arall o ddosrannu, e.e.  $175 = 100 + 50 + 25$ , er mwyn cael ffyrdd haws o adio, tynnu, lluosu neu rannu.

Yn adio a thynnu rhifau ac yn defnyddio'r naill i wirio'r llall

Creu rhestr siopa ac ychwanegu'r prisiau i ganfod y cyfanswm. Cyfrifwch y newid o £20. Gwiriwch eich ateb trwy adio'r cyfanswm a'r newid.

Yn trafod haneri a chwarteri wrth ddisgrifio symiau

Chwilio am rifau o gwmpas eich cartref, trafod hanner y rhif, er enghraifft, hanner bar o siocled sy'n 30g. Rhannu losin neu fisgedi yn haneri a chwarteri. Casglwch bentwr o bethau a'u rhannu'n chwarteri (rhwng pedwar).

Yn haneru a dyblu rhifau dau ddigid, e.e. dyblu 26, hanner 84

Haneru a dyblu rhifau dau ddigid yn y gegin, e.e. hanner 50 o fagiâu te.

Haneru a dyblu symiau o arian a gwahanol fesurau (4 peint o laeth, £54, 60g).

Yn dweud tablau lluosu 2, 3, 4, 5 a 10  
Yn dysgu tablau lluosu 6, 7, 8 a 9

Ymarfer y tablau lluosu y mae eich plant yn eu gwybod yn barod.

Yn defnyddio tablau lluosu i ddatrys problemau lluosu a rhannu

Gofyn cwestiynau am sefyllfaoedd bywyd go iawn lle bydd lluosu a rhannu yn ddefnyddiol, e.e. mae 12 o wyau bach siocled yn y cwpwrdd, mae 3 ohonom ni gartref, felly faint o wyau y gallwn eu cael yr un?

Yn defnyddio arian i dalu am bethau sy'n costio hyd at £2 a £10. Yn cyfrifo'r newid

Defnyddio derbynneb archfarchnad i gyfrifo'r cyfanswm a phrisiau gwahanol eitemau. Trefnu'r eitemau yn ôl pris.

Yn defnyddio unedau ansafonol i fesur hyd, cynhwysedd neu bwysau pethau pob dydd

Mesur pethau pob dydd, e.e. defnyddio llwyau i ganfod pa mor hir yw'r sofffa, cymharu â phethau eraill.

Yn defnyddio unedau mesur safonol: Hyd: cm neu fetrau Pwysau/màs: gramau neu kg Cynhwysedd: ml neu litrau Tymheredd: Yn defnyddio thermomedr â graddau Celsius neu ganradd	Trafod y gwahanol fesurau sydd ar becynnau yn eich cartref, er enghraifft: Defnyddio llwy de 5ml i fesur cynhwysedd gwahanol gynwysyddion neu fygiau. Tymheredd – darllenwch y tymheredd ar ddeialau'r ffrwn ac yn y canllawiau coginio ar bacedi bwyd.
Yn deall y syniad o dreigl amser, dyddiol, wythnosol a thrwy gydol y flwyddyn Yn dweud faint o'r gloch yw hi gan ddefnyddio o'r gloch, hanner awr wedi, chwarter wedi a chwarter i, gan ddefnyddio wyneb cloc crwn (analog) a chloc digidol	Trafod y pethau a gaiff eu cynllunio yn ystod y dydd, e.e. amser cinio, amser ymarfer corff, amser cysgu. Cyfeiriwch at y cloc a gofyn cwestiynau, e.e. faint o amser sydd tan amser gwely? Llunio dyddiadur diwrnod neu wythnos, a chofnodi faint o amser y mae gwahanol bethau'n ei gymryd
Yn trafod priodweddau siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn	Sylwi ar siapiau a phatrymau, e.e. mewn cylchgronau, yn y carped neu'r teils ar y wal. Defnyddio cardbord i wneud eu siapiau eu hunain.
Yn casglu gwybodaeth, ei didoli a thynnu lluniau neu graffiau, e.e. siart bar, graff llinell Yn trafod gwybodaeth sydd mewn siartiau, amserlenni, diagramau a graffiau	Tynnu lluniau a graffiau i ddangos casgliadau o bethau pob dydd, e.e. yr holl deganau yn yr ystafell wely. Defnyddio cardiau Top Trumps i ddewis gwybodaeth bwysig.

### Symud ymlaen a dod yn fwy annibynnol

Yn y cam hwn bydd plant yn gweithio â rhifau hyd at 1 miliwn ac yn ymarfer eu sgiliau cyfrifo wrth adio, tynnu, lluosu a rhannu. Byddant yn defnyddio ac yn cymhwyso'u tablau lluosu ac yn creu cysylltiadau â ffracsiynau, degolion a chanrannau. Byddant yn ymarfer eu sgiliau rhif, mesur, arian ac amser trwy ddatrys problemau bywyd go iawn.

Os yw eich plant:	Gallwch eu helpu trwy wneud y canlynol:
Yn amcangyfrif trwy dalgrynnu i'r 10, 100, 1000 neu i'r rhif cyfan agosaf	Ymarfer talgrynnu gan ddefnyddio'r rhifau bywyd go iawn yn y newyddion neu mewn erthyglau cylchgrawn.
Yn defnyddio ffracsiwn syml, degolyn a chanran	Defnyddiwch y ffracsiynau wrth dorri pizza neu gacen ac anogwch nhw i ddefnyddio'r tri therm, e.e. hanner neu 50% neu 0.5 Hoffwn i gael 0.25 o'r pizza. Beth yw hynny ar ffurf ffracsiwn? Nodi pa mor llawn yw batri ffôn.
Yn defnyddio strategaethau meddwl i alw tablau lluosu hyd at 10 x 10 i gof a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu	Ymarfer tablau lluosu, e.e. 6 x 4, 7 x 2, 5 x 9. Defnyddio'r rhain mewn bywyd pob dydd.
Yn haneru rhifau tri digid yng nghyd-destun rhif, arian a mesurau	Bydd haneru rhifau mewn cyd-destun yn gymorth i ddatblygu hyder o ran rhifau, e.e. mae'r rysâit yn gofyn am 300g o flawd, faint o flawd y bydd ei angen arnom ni i wneud

	hanner y maint?
Yn adio a thynnu cyfansymiau sy'n llai na £100 gan ddefnyddio'r nodiant cywir, e.e. £28.18 + £33.45	Darparu enghreifftiau bywyd go iawn wrth archebu ar-lein. Gofyn i'ch plentyn gyfrifo'r cyfansymiau neu adio'r costau dosbarthu.
Yn rheoli arian, cymharu prisiau adwerthwyr gwahanol a phenderfynu beth y mae modd ei brynu â chyllideb benodol	Chwilio ar-lein am y cynnyrch sy'n cynnig y gwerth gorau, gwyliau, ffonau ac ati a chymharu cost eitemau. Bydd adio costau dosbarthu'n datblygu sgiliau eraill ar ben hynny, naill ai'n fanwl gywir, e.e. adiwch £2.49 o gostau postio neu trwy dalgrynnu.
Yn darllen ac yn defnyddio clociau analog a chlociau digidol	Annog defnyddio clociau ac amseryddion o gwmpas y tŷ gan adio amser mewn munudau ac oriau. Ymarfer y termau 'wedi'r awr', e.e. chwarter wedi 2, ac 'i'r awr', e.e. deg munud i 4. Defnyddiwch gloc 24 awr wrth roi dewisiadau amgen, e.e. 2.40 pm <b>NEU</b> 20 munud i 3 <b>NEU</b> 14:40.
Yn amseru digwyddiadau mewn munudau ac eiliadau	Datblygwch fanwl gywirdeb yr amseru, o ddigwyddiadau byr i rai hirach, e.e. o amseru gwibiad yn yr ardd i amseru hyd pobiad.
Yn defnyddio a dehongli calendrau, amserlenni a rhestrau i gynllunio digwyddiadau a gweithgareddau	Helpu eich plant i ddefnyddio calendrau ac amserlenni trên ar-lein trwy ddarllen ar draws y rhesi ac i lawr y colofnau.  Cynlluniwch daith i le yng Nghymru a chyfrifo faint o amser y byddai'n ei gymryd.
Yn trosi unedau o hyd metrig yn unedau llai, e.e. cm yn mm, m yn cm, km yn m.	Bydd mesur pethau cartref a phethau gardd yn eu helpu i wella eu sgiliau mesur ac yn rhoi cyfle iddynt eu trosi'n uned arall, e.e. mae hyd y bwrdd yn 2 fetr neu'n 200 cm.

Yn y cam hwn, bydd plant yn gweithio gyda rhifau o bob maint a chydau ffracsiynau, degolion a chanrannau. Byddant yn defnyddio'u sgiliau rhif mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn gan ddefnyddio'u sgiliau datrys problemau.

Os yw eich plant:	Gallwch eu helpu trwy wneud y canlynol:
<p>Yn gweithio'n hyderus gyda rhifau hyd at 1 miliwn a'r tu hwnt</p> <p>Yn amcangyfrif a brasamcanu cyfrifiadau +, -, x a ÷</p>	<p>Ymarfer ac amcangyfrif gan ddefnyddio cyfrifiadau bywyd go iawn fel siopa, biliau trydan ac ati.</p>
<p>Yn cyfrifo cynnydd neu ostyngiad canrannol</p>	<p>Edrych ar gynigion ar-lein a chyfrifo'r gostyngiadau canrannol.</p>
<p>Yn darllen a dehongli graddfeydd ar ystod o offerynnau mesur</p> <p>Yn defnyddio cywerthoedd metrig bras yr unedau imperial a ddefnyddir bob dydd</p>	<p>Canfod cynifer o offerynnau mesur yn y cartref, fel jygiâu, tapiau mesur, cloriannau a'u defnyddio i fesur hyd, màs a chyfaint wrth wneud tasgau pob dydd.</p> <p>Trafodwch fesuriadau imperial/metrig, e.e. km a milltiroedd.</p>
<p>Yn gallu casglu eu data eu hunain ar gyfer arolwg, e.e. trwy lunio holiadur</p>	<p>Lluniwch holiadur ar bwnc y gallech ei anfon trwy'r e-bost a gofyn i ffrindiau a pherthnasau ei lenwi. Ar sail yr ymatebion, ystyriwch pa mor addas oedd eich cwestiynau neu a fyddai modd eu newid ychydig er mwyn gwella eglurder neu fanwl gywirdeb yr atebion.</p>
<p>Yn defnyddio cymhareb a chyfrannedd, gan gynnwys graddfeydd map</p>	<p>Defnyddio ryseitiau, os yw 1 wy yn defnyddio 100g o flawd, sawl wy y bydd ei angen os ydw i'n defnyddio 600g o flawd?</p>
<p>Yn deall manteision ac anfanteision defnyddio cyfrifon banc, gan gynnwys cardiau banc</p> <p>Yn trafod egwyddorion sylfaenol cyllidebu, cynilo a benthyca</p>	<p>Edrych ar wefannau gwahanol fanciau a gwasanaethau gwybodaeth am arian a thrafod y manteision a'r anfanteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwario, benthyca a chynilo. Gwneud penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o reoli arian.</p> <p>Chwilio ar-lein am y cynnyrch sy'n rhoi'r gwerth gorau.</p>